



05

Esgyn /
Uprisings

Jesse Wine

18.04 – 13.07.2014

Jesse Wine

18.04 – 13.07 2014

Esgyn /
Uprisings

Mae gwaith Jesse Wine, a aned yng Nghaer yn 1983 ac sydd bellach yn byw ac yn gweithio yn Llundain, yn cyfuno hiwmor, cofiant a hanes celfyddydol. Er bod gwaith Wine yn aml-ddisgyblaethol, mae'n aml yn disgrifio ei hun fel seramegydd. Mae ei waith diweddar, sy'n defnyddio clai yn bennaf, yn rhoi golwg ddysgedig ar y cyfrwng, gan ddefnyddio ei hanes, ei gysylltiad â chrefft a'i safle yn y celfyddydau gweledol. Mae ei waith yn dangos gwir ddiddordeb yn y cyfrwng a'r broses o greu, yn ogystal â materion ategol sy'n ymwneud â ffurf ac arddangos.

Born in 1983, in Chester Jesse Wine's work combines humour, biography and art history. While Wine's work is multi-disciplinary, he often describes himself as a ceramicist. His recent work, mostly using clay, has an erudite take on the medium, using its history, its alliance with craft and its placement within the visual arts. His works reveal a fascination with the medium and the process of making, as well as underlining issues of form and display.



Adam Carr

Curadur Rhaglen Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Programme Curator
MOSTYN

→
IMAGE / DELWEDD
I really care II
53 x 49 x 7cm
Glazed ceramic, 2014



Cyfweliad gyda / An interview with Jesse Wine — *Lid*



Adam Carr: Hoffwn i ddechrau'r drafodaeth hon drwy ofyn am eich defnydd o serameg gan ei bod yn elfen amlwg o'ch gwaith. Beth wnaeth eich denu chi at y ddisgyblaeth hon? Byddai rhai yn dadlau ei bod yn ddiobaith, yn ystrydebol hyd yn oed ac nad yw'n berthnasol i'r celfyddydau gweledol yn yr oes sydd ohoni.

Jesse Wine: Mewn gwirionedd, cefais fy ngorfodi i astudio serameg! Roeddwn i yng Ngholeg Hunter yn Efrog Newydd yn fyfyrwr cyfnewid o Goleg Brenhinol y Celfyddydau ac un o ragofynion system MFA [Gradd Meistr yn y Celfyddydau Cain] America oedd bod pob myfyriwr yn astudio nifer benodol o ddsbarthiadau. Oherwydd methiant biwrocraidaidd rhwng y ddau goleg, fe lwyddais i gollu pob dosbarth 'diddorol' roeddwn i am ei astudio, gan 'mod i'n rhy hwyr yn cofrestru. Yr unig ddsbarth oedd ar ôl oedd y dosbarth Clai a Chastio. Cofrestrais iddo - rhaid i mi gyfadde' i mi wneud hynny dan rwgnach. Fel dyn sy'n cerflunio roedd gen i'r agwedd haerllug, 'beth yn y byd allan nhw ei ddysgu i mi?'. Ond daeth yn amlwg bod gen i lawer i'w ddysgu. Felly, mewn gwirionedd, cefais fy ngorfodi i ddechrau gweithio ym maes serameg, ac ers hynny, dwi wedi parhau i weithio'n ddiwyd yn y maes.

AC: Fyddech chi'n disgrifio'ch hun yn seramegydd?

JW: Ar hyn o bryd, byddwn. Pan fydd rhywun yn gofyn i mi pa fath o artist ydw i, dwi'n teimlo mai'r esboniadau cyflymaf, mwyaf disgrifiadol yw'r rhai mwyaf diddorol. Mewn gwirionedd, dwi'n artist amlddisgyblaethol, ond does gan y disgrifiad hwnnw mo'r miloedd o flynyddoedd o hanes ac nid yw ychwaith yn cyseinio ar unwaith yn y clustiau. Mae cerflunydd yn ateb da, ond mae seramegydd yn ateb gwell byth; mae'n hynod benodol ac, yn gyffredinol, mae gan bobl berthynas glir a phendant â'r syniad o serameg ac elfennau ffisegol

Adam Carr: I would like this discussion by asking about your use of ceramics since it characterises the majority of your works. What brought you to this discipline? Some would argue that it is forlorn, even clichéd and has no relevance in the visual arts today.

Jesse Wine: I actually came to ceramics because I had to! I was doing an exchange from the RCA to Hunter College in New York and one of the pre-requisites of the American MFA system is that each student takes a certain number of classes. Owing to a bureaucratic fuck-up between the two colleges I ended up missing every 'interesting' class that I would have liked to take, as I was too late in signing up. The only class left was the Clay & Casting class. I signed up - I must admit I did so slightly begrudgingly. As a male sculptor I had that arrogant, 'what can they possibly teach me?' kind of attitude. As it transpired, pretty much everything. So my coming to ceramics was actually a forced hand, one that I have maintained with absolute diligence since this moment.

AC: Would you describe yourself as a ceramicist?

JW: Currently, yes. When I am asked what kind of artist I am I have found that the fastest, most descriptive explanations prove to be the most interesting. Really I am a multi-disciplinary artist, but that description doesn't have thousands of years of history and immediate cerebral resonance. Sculptor is a good answer, but ceramicist is even better, super specific and generally speaking humans have a clear and defined relationship with the idea and physicality of ceramics. So, yes I would. Other than the practicality of the term ceramicist I am gaining a greater belief all the time in the role, rigor and results of only working in one material - maybe

y gelfyddyd honno. Felly, byddwn yw'r ateb. Heblaw am ymarferoldeb y term seramegydd, dwi'n dechrau credu fwyfwy yn rôl, manylder a chanlyniadau gweithio gydag un deunydd yn unig - efallai 'mod i'n teimlo ychydig fel arlunydd, oherwydd pan af i'r stiwdio mae fel pe bai'r holl boen meddwl sy'n gysylltiedig â gwneud cerflun cyfoes wedi diflannu am fy mod i wedi penderfynu mai'r cyfan alla' i ei ddefnyddio yw mwd a sglein. Mae dewis deunyddiau ar gyfer gweithredu cyfres o syniadau yn syniad cysyniadol i ryw raddau - dwi'n credu bod y gwaith yn gwrth-ddweud y farn hon rhyw fymryn gan fod y broses o greu yn dibynnu'n gryf ar alcemi'r broses o danio. Dydw i ddim yn arbennig o llym o ran y cynnyrch terfynol. Dwi'n gwneud y gwaith golygu ar y dechrau os mynnwch chi.

AC: Fyddech chi'n dweud bod eich magwraeth yng Nghaer wedi effeithio ar y gwaith a wneuch chi? Hynny yw o ran galwedigaeth Rufeinig Caer a'r ffaith bod crochenwaith yn cael ei gynhyrchu'n eang drwy gydol yr oes hon, y mae rhai darnau wedi'u cadw yn Amgueddfa Grosvenor Caer...

JW: Pe baech chi wedi gofyn hyn i mi gyn lleied â chwe mis yn ôl, byddwn i wedi dweud na. Ond, yn ôl pob golwg, mae fy ngorffennol yn dechrau effeithio ar bob agwedd ar fy mywyd. Mae'r hyn roedd gen i ddiddordeb ynddo pan oeddwn i'n blentyn ac yn fy ardddegau, a'r cyfnod pan oeddwn i'n byw yng Nghaer, yn dechrau dod yn brif ffocws yn fy ngwaith celfyddydol. Cynhyrchu pethau sydd â phatina a rôl benodol, sydd wedi'u diffinio'n llwyr cyn cychwyn y broses o greu; yn allanol, mae hynny'n swnio fel bwriad artist cysyniadol, sef esbonio/cyflwyno syniad/dadl drwy weithredu celfyddyd, ond yn fewnol, mae fel dweud 'mod i'n gwybod pa ymateb y bydda i'n ei gael pe bawn i'n gwisgo pâr newydd sbon o 'Reebok Classics'. Dwi'n gwybod pa ymateb a gaf i a dwi'n hoffi'r ymateb hwnnw felly bydda

I'm feeling a little like a painter, when I turn up to the studio it is as if most of the hang-up type questions associated with making contemporary sculpture are resolved because I have decided all I can use is mud and glaze. It's somewhat a conceptual idea, to choose materials with which to execute a series of ideas - I think the work belies this position a little as the actual making process leans on the alchemy of the firing process so much. I am not super controlling of the final product, I do my editing at the beginning if you will.

AC: Would you say that your upbringing in Chester has had an impact on the work you make? I'm thinking here of Chester's Roman occupation and the wide production of ceramics throughout this era, some of which is housed within Chester's Grosvenor Museum...

JW: If you had asked me this as little as six months ago I would have said no. But, it seems my past is creeping up on me in every part of my life, what I was interested in as a child and teenager, when I was living in Chester, is actually emerging as some of the main strands of focus I now have in my art practice. Producing things that have a certain patina and role, completely defined before the making process begins; externally that sounds like the intention of a conceptual artist, to explain/present an idea/argument through the execution of an art. But internally it's more like saying, I know what reaction I'll get if I turn up wearing a fresh new pair of Reebok Classics, I know the reaction and I like the reaction so I will aspire, perspire even for the reaction. Looking at artists from the north west like Mark Leckey or Ryan Gander and realizing they are original scally's, worried about LaCoste tracksuits in their youth but making amazing art now gives me a massive amount of faith in something I was previously a little

**Cyfweliad gyda /
An interview with
Jesse Wine — *Lid***

◀
IMAGE / DELWEDD
Culture stick II
60 x 20 x 53cm
Glazed ceramic, 2013
casgliad preifat /
private collection

Esgyn /
Uprisings



i'n dyheu am yr ymateb hwnnw ac yn gweithio'n galed i'w gael. Mae edrych ar artistiaid o'r gogledd-orllewin fel Mark Leckey neu Ryan Gander a sylweddoli mai nhw oedd y rapsgaliwns gwreiddiol, yn poeni am dracwisgoedd LaCoste yn eu hieuenctid, ond yn creu darnau anhygoel o gelfyddyd nawr, yn rhoi cryn dipyn o ffydd i mi yn rhywbeth yr oeddwn i'n arfer bod ag ychydig o gywilydd ynddo neu'n wyliadwrus yn ei gylch, sef fy ngorffennol. Dwi'n sylweddoli bod hynny'n swnio'n rhy argraffadwy i mi gael barn gadarn ar sail y teimlad 'mod i'n 'edrych dros fy ysgwydd', ond mewn gwirionedd, mae'n ail-greu'r fersiwn ohona i yn 16 oed i'r dim. Dwi'n dal i grefu sêl bendith o ran fy esgidiau rhedeg Nike Huarache, dwi'n gwybod 'mod i'n eu hoffi nhw...dwi'n meddwl. Dwi nawr yn mynd ati'n ymwybodol i dynnu fy ngorffennol i mewn i'm gwaith gymaint â phosib a dwi'n synnu at ba mor gyson y mae'r cyfeiriadau at yr hyn a arferai fod yn ddiwylliant dryslyd, yn fy marn i, yn cael eu derbyn yn llwyr ac mewn modd prydfferth. Ac mae hyn wedi tyfu'n rhywbeth mor ymarferol a hunangofiannol; gwneud cerfluniau o'm cinio a nifer o hunanbortreadau ohona i'n gwisgo hetiau gwlan, disgrifio'r berthynas rhwng yr hipster a'r cynhyrhydd celfyddydol ymwybodol, dod â'r therapi a ddaw yn sgil creu a bodoli o fewn gwrthrychau unigol.

AC: Mae arddangos yn rhan annatod o'ch gwaith. Er enghraifft, yn eich arddangosfa yn Limoncello yn Llundain, trawsnewidiwyd yr oriel yn Ardd Zen Japaneaid. Rydyn ni wedi trafod arddangos yn drylwyr yn ddiweddar mewn perthynas â'ch arddangosfa yn MOSTYN ac yn eich gwaith yn gyffredinol. Allwch chi ddisgrifio beth yw eich cylluniau ar gyfer yr arddangosfa a sut mae'r syniad o arddangos yn mynd i gael y sylw pennaf?

embarrassed or maybe cautious about, my past. I realize that sounds way too impressionable for me to have a concrete opinion based on a 'looking over your shoulder' type feeling, but actually it's an exact re-enactment of the 16 year-old me. Still needing a little approval on my Nike Air Huarache trainers, I know I like them, I think. I now find myself consciously pulling my past into the work as much as possible and I'm astounded at how consistently the references to what I believed to be a dislocated culture are fully and beautifully received. And this has grown into something so practical and autobiographical, making sculptures of my dinner and a number of self portraits sporting beanie's, describing the hybrid between hipster and conscious art-producer, bringing the therapy of making and existing together into singular objects.

AC: Display is integral to your work. Your exhibition at Limoncello in London, for example, saw the gallery space transposed into a Japanese Zen Garden. We spoke about display at length recently both in relation to your exhibition at MOSTYN and your work in general. Could describe what you are planning for the exhibition and how the notion of display is being put into the foreground?

JW: Obviously the notion of display in visual arts is of utmost importance and over the last 50 years has become more and more integral to the perceived 'quality' of an exhibition and individual works. John Kelsey writes about how 'We even have such things as exhibitions now' in Rich text. I don't know exactly what he means but I certainly have a strong feeling about what this means to me; producing art is something that I believe requires absolute responsibility on the part of the artist.



Cyfweliad gyda / An interview with Jesse Wine — *Lid*



JW: Yn amlwg, mae'r syniad o arddangos yn y celfyddydau gweledol yn hynod bwysig a dros y 50 mlynedd diwethaf, mae wedi dod yn rhan fwyfwy cynhenid o'r modd y caiff 'ansawdd' arddangosfa a gwaith unigol ei ddirnad. Mae John Kelsey yn ysgrifennu am y ffaith 'bod gennyf ni'r fath bethau ag arddangosfeydd nawr' mewn testun fformat cyfoethog. Dydw i ddim yn gwybod yn union beth mae'n ei olygu, ond yn bendant, mae gen i deimlad cryf am beth mae hyn yn ei olygu i mi; mae cynhyrchu celfyddyd yn rhywbeth sy'n gofyn am gyfrifoldeb llwyr ar ran yr artist. Hynny yw, mae angen i chi fod yn atebol, yn agored ac yn ymatebol i'r ffaith eich bod chi'n cynhyrchu rhywbeth ac yn ei gyflwyno i'r byd. Felly o ran creu gwaith unigol neu hyd yn oed gyfres o ddarnau, mae'r syniad hwn yn ddealladwy, a dwi'n teimlo 'mod i'n gallu derbyn hynny, eich bod chi'n gwneud rhywbeth, yn ei ddeall yn y bôn, yn credu ei fod yn cyfleu'n fedrus yr hyn rydych chi am iddo ei gyfleu ac felly mae'n gwneud i chi deimlo'n dda ac yn real am ei fodolaeth. O ran arddangosfeydd yn eu cyfanrwydd, mae'r rheini'n fater hollol wahanol o ran y syniad hwn o gyfrifoldeb. Yn aml mae deall a chymryd gwir gyfrifoldeb am un darn o waith neu gyfres o ddarnau yn anodd ac yn llethol, felly mae cymryd cyfrifoldeb penodol iawn am sioe gyfan o gelfyddyd yn frawychus. Dwi wedi llunio dadl gref dros geisio gwneud hyn. Dwi'n teimlo bod angen i sioe o'r fath rywsut adlewyrchu fy mhersonoliaeth i a'r syniad delfrydol o sut mae'r gwaith yn gweithredu yn y byd. Dyma wnaeth ysbrydoli'r Ardd Zen yn Limoncello, creu her i'r gwaith gael ei gyfleu mor glir ac mor agored â phosib.

Fy nymuniad i yw bod mor hael ac mor addysgiadol â phosib wrth drefnu arddangosfeydd. Credaf fod hyn yn adlewyrchu sut dwi'n disgwyl i bobl fod. Er mwyn i'r gwaith gyfleu mewn modd hyderus a chlir, rwy'n ceisio

Basically you have to be accountable, open and responsive to the fact that you produce something and put it into the world. So in terms of making individual works or even a series of works this idea is digestible, I feel like I can get a handle on that, that you make stuff, understand it pretty intrinsically, believe it communicates proficiently what you would like it to and so makes you feel good and real about its existence. In terms of whole exhibitions this is a completely different question, this idea of responsibility, a lot of the time understanding and taking true responsibility for one work or a series of work is tough and dizzying, so to take a really defined responsibility for a whole show of art is daunting. I have to set up a strong argument to try to do this, I feel like it needs to be somehow reflective of my personality and desired idea of how the work operates in the world. This is where the Zen garden at Limoncello came from, to set up a proposition for the works to communicate as clearly and as openly as possible.

My desire is to be as generous and informative as possible when making exhibitions, I believe this to be a reflection of what I expect humans to be. In order for the work to communicate confidently and clearly I try to embody these ideas not just in the work itself but also in the display.

For MOSTYN I plan to paint a mural of a tropical jungle scene, onto which ceramics will be placed. The jungle scene is a copy of a mural that my mum's friend Margaret painted on my bedroom wall when I was little. I would like this exhibition to be almost over-autobiographical, coming around to the self portrait's and dinner-ceramics I have been working on recently. I think this is coming from working so close to where I was born (Chester) and trying

ymgorffori'r syniadau hyn nid dim ond yn y gwaith ei hun ond hefyd yn yr arddangosfa.

Ar gyfer MOSTYN, dwi'n bwriadu peintio murlun o jyngl drofannol, lle caiff y crochenwaith ei osod. Mae'r olygfa o jyngl yn gopi o furlun y peintiodd Margaret, ffrind fy mam, ar wal fy 'stafell wely pan oeddwn yn ifanc. Hoffwn i'r arddangosfa hon fod yn or-hunangofiannol bron, gan arwain at yr hunan-bortreadau a'r crochenwaith cinio rwyf wedi bod yn gweithio arnynt yn ddiweddar. Credaf fod hyn yn deillio o weithio mor agos at fro fy mebyd (Caer) a cheisio esbonio beth dwi'n ei wneud nawr mewn perthynas â'r hyn a brofais yn blentyn. Dwi hefyd yn gwybod y bydd cynulleidfa gwbl wahanol yn mynd i weld yr arddangosfa hon o gymharu ag arddangosfeydd blaenorol. Mae'r syniad bod y sioe hon yn lleol yn rhywbeth yr hoffwn i ganolbwyntio arno o safbwynt cysyniadol, gan ddefnyddio fy hanes i wneud hynny.

to explain what I do now in relation to what inexperienced as a kid. I also know that this exhibition will be viewed by a completely different audience compared to where I normally exhibit. The idea that this show is local is something I would like to conceptually focus on, using my history as a tool.

•
Holl weithiau gan /
All works by
Jesse Wine.
—

I really care II
53 x 49 x 7cm
Glazed ceramic, 2014

Culture stick II
60 x 20 x 53cm
Glazed ceramic, 2013

Chester man II
49 x 52 x 35cm
Glazed ceramic, 2014
—

I gyd drwy garedigrwydd yr
artist ac Limoncello / All
courtesy the artist and
limoncello

•
Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn
i gyd-fynd â'r arddangosfa
Esgyn gan Jess Wine, fel rhan
o raglen Oriel 6.

MOSTYN, 18 Ebrill -
13 Gorffennaf 2014

Ysgogwyd a churadwyd Oriel
6 a'i rhaglen Esgyn gan:
Adam Carr, Curadur Rhaglen
Celfyddydau Gweledol MOSTYN.
—

Mae Esgyn yn rhoi
arddangosfeydd unigol i
artistiaid ifanc sy'n dod
i'r amlwg ond heb gael
arddangosfa unigol mewn
lleoliad sefydliadol, naill
ai'n genedlaethol neu'n
rhyngwladol. Mae'n caniatáu
i artistiaid weithio
dan amodau proffesiynol
a chyflwyno'u gwaith i
gynulleidfya ehangach.

Gwnaed Esgyn yn bosibl
trwy gefnogaeth hael:
Sefydliad Esmée Fairbairn
—

Mae cofnod catalog o'r
llyfr hwn ar gael gan
Lyfrgell Genedlaethol Cymru
a'r Llyfrgell Brydeinig.
Cyhoeddiad © 2014 MOSTYN
a'r awduron.
—

Cyfieithu: Cymen
Dylunio: Elfen

•
This publication has been
produced to accompany the
Uprisings exhibition by
Jesse Wine, as part
of Gallery 6's programme.

MOSTYN, 18 April -
13 July 2014

Gallery 6 and its programme
Uprisings has been initiated
and curated by: Adam Carr,
Visual Arts Programme
Curator, MOSTYN.
—

Uprisings gives solo
exhibitions to young and
emerging artists who are
yet to receive a solo
exhibition in an institution
setting, either nationally
or internationally. It
allows artists to work under
professional conditions
and present their work to
a larger audience.

Uprisings has been made
possible by the generous
support of: Esmée Fairbairn
Foundation
—

A catalogue record for this
book is available from the
National Library of Wales
and the British Library.
Publication © 2014 MOSTYN
the authors.
—

Translation: Cymen
Design: Elfen